

# Papur y Plwyf

Papur lleol electronig plwyf  
Llangynnwr – Llangynnwr's local  
electronic paper

Rhif tri Ebrill 2011 April No. 3

Bydd Papur Y Plwyf yn son am ddigwyddiadau a phersonoliaethau yn ein cymuned. Os ydych am dderbyn copi, anfonwch eich cyfeiriad e-bost at [papuryplwyf@hotmail.co.uk](mailto:papuryplwyf@hotmail.co.uk)

## Rhodri Glyn yn ymgyrchu yn Llangynnwr



Rhodri Glyn Thomas  
ymgyrchydd Plaid Cymru

Mae Rhodri Glyn yn ymgyrchu er mwyn cael ei ail-ethol i'r Cynulliad Cenedlaethol i gynrychioli Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr. Yn y gorffennol, rhoddodd gefnogaeth brwd i'r ymgyrch i gael bws am ddim ar gyfer yr ysgolion uwchradd lleol. Ar stepen y drws, mynegodd etholwyr eu pryder

mawr am y dreth uchel ar danwydd. Dywedodd Rhodri, "Wrth ganfasio, croesawyd polisiau'r Blaid sy'n amddiffyn gwasanaethau, rhagnodiadau am ddim a thocynnau bws am ddim". Mae tri ymgyrchydd arall yn sefyll yn yr etholiad. Dewisodd y Blaid Lafur swyddog undeb y mis diwethaf sef Anthony Jones o Ddyffryn Aman. Cynrychiolydd y Toriaid yw Henrietta Henshaw a enillodd lai na 20% o'r bleidlais yn is-etholiad Cenarth yn ddiweddar. Dewiswyd Will Griffiths o Hwylfordd fel ymgeisydd y Democratiaid. Canlyniadau etholiad 2007: Plaid Cymru 15,655 (53% + 5%), Llafur 7,186 (25% -7%), Ceidwadwyr 4,676 (16% +3%) a Democratiaid Rhyddfrydol 1,752 (6% - 1%)

## Bachgen a oedd yn chwilio am loches yn ymddiheuro i gefnogwyr lleol

Ymddiheurodd Daniyal Shahza, y bachgen a fu'n byw yn Llangynnwr ers dod i Gymru, am ddweud mai Ahmer Rana oedd ei enw, a bod ei rieni ar goll. Fe'i arestwyd gan Asiant Ffin y DU cyn cael ei alltudio. Daeth twyll stori Daniyal i'r amlwg pan ymddangosodd ar rhaglen Cymraeg am faterion cyfoes, 'Y Byd ar Bedwar' lle darganfuwyd ei fam ym Mhacistan. Arwyddodd dros 4,000 o bobl ddeiseb yn erbyn ei alltudiaeth. Roedd wedi gobeithio gorffen ei astudiaethau lefel A yn Ysgol Queen Elizabeth High.

## Merch o Langynnwr mewn Antur yn y Fforest Law

Mae cyn-ddigybl Ysgol Bro Myrddin, Nia Bevan wedi dechrau cyfnod o bump wythnos yn Fforest Law yr Amazon i wneud gwaith cadwraeth. Yn dilyn hyn, cafodd ei noddi i ddringo i ben dramatig adfeilion Machu Picchu i godi arian i Gefnogaeth Cancr Macmillan. Gobeithir y bydd y dringo nodedig yn codi mil o bunnoedd i'r elusen.

## 'Stand Still Rate' ar gyfer Llangynnwr

Cynigiodd y Cynghorydd Elwyn Williams dylai'r cyngor rhewi treth eleni. Derbyniwyd y cynnig gan bob aelod o'r cyngor.

"Bu'r cyngor yn gweithio'n galed i leihau costau trydan drwy ffitio dyfeisiau arbed ynni ac, am y tro cyntaf, llwyddwyd i ennill grant o £12,000 i dalu am y rhaglen amgylcheddol. Gyda'r

cytundeb prynu un/cael un am ddim ar gyfer arosfeydd bws oddi wrth y Cyngor Sir, llwyddodd y cyngor cymuned i rewi treth ar gyfer trigolion Llangynnwr", dywedodd y Cynghorydd Geraint Bevan.



Gwasanaeth Gwaed Cymru

Os yw rhoi yn eich gwaed,  
helpwch ni

Neuadd Ddinesig San Pedr,  
St Peter's Civic Hall

11eg Ebrill – 20fed Ebrill

## H.I. EVANS & FEIBION Llaethdy Penymorfa

Llaeth Ffres Pasteuredig o'r Fferm  
Papur Newydd  
Hufen ac wyau ffres  
cludiant dyddiol  
Ffon  
(01267) 236972



MUDIAD YSGOLION MEITHRIN

## Cylch Meithrin Llangynnwr

Dydd Llun, Mawrth, Iau a Dydd  
Gwener (Mon, Tues, Thurs & Fri)  
9.00 – 11.30  
£2.50 sesiwn  
Ysgol Llangynnwr

## Welsh Beginners Course:

Ysgol Llangynnwr  
Thursday nights 7-9pm

Cysylltwch â /Contact  
Siân Merlys



01558 822729

## Nodiadau Garddio

Ar yr adeg yma o'r flwyddyn, rhoi ychydig o wres i'r planhigion yw'r allwedd er mwyn tyfu planhigion llwyddiannus. I'r rhai ohonom sydd ar y blaen wrth dyfu planhigion ifanc mewn potiau ar sil ffenest, mae'n bwysig cofio'u troi yn rheolaidd er mwyn sicrhau eu bod yn tyfu'n syth yn lle plygu tuag at yr haul. Dylai dwy neu dair gwaith yr wythnos fod yn ddigon. Dadl y foment yw cynhesu'r pridd gyda phlastig clir neu orchudd du. Bydd y ddau yn helpu cynhesu'r pridd ond bydd hadau a blannwyd o danfagiau du yn gorfod cystadlu gyda'r chwyn fydd yn tyfu yr un mor

gyflym a'r hadau. Bydd y chwynyn tyfu o dan blastig clir ond gellir eu howio cyn i'r hadau droi'n blanhigion gan roi cyfle i'r hadau yn erbyn unrhyw chwy

## Grantiau Cyngor Cymuned

Yn ddiweddar, cytunodd y Cynghorwyr Cymuned i gefnogi elusennau lleol o'r gronfa grant S137. Derbyniodd y mudiadau canlynol £50 yr un i gefnogi'u gweithgareddau:

Ysgol Berfformio Dyffryn Tywi  
C Ff I Sir Gaerfyrddin  
Victim Support Cymru  
Tŷ Hafan  
Urdd - Rhanbarth Myrddin

## Newyddion byr

**Grant Adran 106 ar gyfer Parc Llangynnwr**  
Cadarnhaodd Cyngor Sir Gaerfyrddin y bydd Parc Llangynnwr yn derbyn budd-daliad o £60,000. Anogodd Sarah Howells, cadeirydd y Cyngor Cymuned drigolion Llangynnwr i wneud eu blaenoriaethau ar gyfer y parc yn glir i'r cyngor cymuned.

## Agor Gwaith Trin Dwr

Agorodd Jonathan Edwards A.S. y gwaith trin dwr ar Heol Capel Dewi yn ddiweddar. Costiodd £9.9 miliwn a bydd yn helpu gwella ansawdd dwr ar draws ein hardal.

## Bawd lan ar gyfer Ffordd Morgan

Cytunodd datblygwyr yr ystad newydd ar bwys Parc Rhufeinig i'w enwi ar ol y Cynghorydd Dai Moggs.

## Anrheg i'r ysgol

I ddatlu penblwydd Ysgol Llangynnwr yn bumdeg oed, penderfynodd deiaconiaid Capel Philadelphia, Nantycaws roi rhodd o bum can punt i'r ysgol.

## Siop ddisgownt newydd ar gyfer Llangynnwr

Rhoddyd caniatad cynllunio i Range i gymryd dros safle Currys pan fyddant yn symud i mewn i PC World.

## Llangynnwr ar lein

I ddarllen mwy am Langynnwr, ewch i; [www.llangunnor.org.uk](http://www.llangunnor.org.uk)  
Newyddion  
Digwyddiadau  
Oriol lluniau  
Cyngor Cymuned

## Pensarn - Cri o'r Gorffennol



## Llangynnwr yn y 1920au

Dyma un o'r lluniau o albwm lluniau Llangynnwr a brynwyd ar E-Bay am bumpunt. Dengys y llun loriau sydd wedi dod o mor bell a Meidrim yn dod a llaeth i'r hufenfa United Dairies nesaf at orsaf y rheilffordd. Yn y cefndir, gallwch weld amlinelliad o garchar Caerfyrddin.

## Storiau o Langynnwr - Sgam Bwrdd Marchnata Wyau

Yn dilyn y cyhoeddiad o fanylion am stordy deinameit uwchben Llygad Yr Haul, daeth nifer o storiâu am ddiwyddiadau yn Llangynnwr i'r golwg.

Yn y chwedegau, byddai'r Bwrdd Marchnata Wyau'n prynu wyau oddi wrth ffermwyr lleol. Byddent yn stampio'r wŷ gyda stamp llew ac yna'u hail-werthu i'r cyhoedd. Byddai'r bwrdd yn prynu'r wyau am ddwy geiniog yr un ac yna'u gwerthu am geiniog a dimai i'r cyhoedd. Roedd hen wraig weddw yn Nantycaws yn cadw ieir a byddai'n mynd a rhyw ddwsin o wyau i mewn bob yn eilddydd. Prynai ychydig o'r wyau yn ôl am y pris cymhorthdal. Ar ol cyrraedd adref un diwrnod, sylwodd fod angen golchi un o'r wyau. Glanhaodd yr wy a daeth y stamp llew i ffwrdd ac felly dechreuodd fusnes bach da'n gwerthu ac yna'n ail-werthu'r wyau i'r Bwrdd Marchnata Wyau.